



Ein cyf/Our ref WQ83368

Heledd Fychan AS

heledd.fychan@senedd.cymru

29 Tachwedd 2021

Annwyl Heledd

Diolch am eich Cwestiwn Ysgrifenedig diweddar: Am ba hyd y mae lefelau llygredd sy'n gysylltiedig â'r A470 yn ardal Pontypridd wedi bod yn rhy uchel, a pha mor beryglus yw hyn?

Mae lleoliadau ar y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd lle y gall lefelau ansawdd aer fod yn fwy na'r terfynau a nodir yn Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer (Cymru) 2010 wedi'u nodi'n bennaf drwy fodel Cenedlaethol Mapio Hinsawdd Llygredd DEFRA, sy'n cael ei ddiweddarau'n flynyddol. Mae'r model wedi'i gynllunio i gyflawni rhan o ofynion y DU i adrodd ar grynodiadau llygryddion penodol yn yr atmosffer a dyma'r ffynhonnell genedlaethol y cytunwyd arni ar gyfer nodi ardaloedd neu lwybrau sy'n uwch na'r lefelau terfyn a bennwyd ar gyfer y llygryddion hyn.

Roedd y rhan o'r A470 rhwng Cyfnewidfa Glan-bad a Chyfnewidfa Stryd y Bont ym Mhontypridd yn un o 5 lleoliad a nodwyd drwy Fodel PCM 2017 fel rhai â lefelau cyfartalog blynyddol o NO2 sy'n uwch na'r terfyn. Cynhaliwyd y gwaith o gomisiynu ymchwiliadau Arweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru (WEITAG) cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl i helpu i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau cydymffurfiaeth yn yr amser byrraf posibl. Ar ôl cwblhau ymchwiliadau Cam 1 a 2, penderfynwyd y gallai camau i ostwng y terfyn cyflymder i 50mya arwain at welliannau ar unwaith mewn ansawdd aer ac felly, gweithredwyd y terfyn hwn ym mhob un o'r 5 lleoliad fel mesur dros dro ym mis Mehefin 2018. Ar ôl cwblhau ymchwiliadau terfynol Cam 3 Arweiniad ar Arfarnu a Chynllunio Trafnidiaeth Cymru, nodwyd mai terfyn cyflymder o 50mya oedd yr unig fesur a fyddai'n cydymffurfio â'r terfyn ar y rhan hon o'r A470 cyn gynted â phosibl.

Mae swyddogion yn ymwybodol o'r ffaith bod nifer o Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) gerllaw'r A470 ger Pontypridd gan gynnwys yng Nghilfynydd, Trefforest a Ffordd Pentrebach (ardal a elwir yn lleol yn Nightingale's Bush). Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf sy'n gyfrifol am yr AQMA hyn, gan mai un o'r swyddogaethau statudol a gynhwysir yn Neddf yr Amgylchedd 1995 yw bod yn rhaid i awdurdodau lleol adolygu ac

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

asesu ansawdd aer yn eu hardal. Os bydd canlyniadau unrhyw adolygiad neu fonitro dilynol yn nodi unrhyw faterion ansawdd aer, rhaid i'r Awdurdod Lleol ei ddatgan fel Ardal Rheoli Ansawdd Aer (AQMA) a pharatoi cynllun i wella ansawdd yr aer, h.y. Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer Lleol.

Gan fod yr AQMA yn Nhrefforest a Nightingale's Bush wedi'u lleoli ochr yn ochr â'r rhan o'r A470 lle mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i leihau lefelau NO₂, mae'n bosibl y gall ansawdd aer wella yn y lleoliadau hyn hefyd. Fodd bynnag, mae'r AQMA yng Nghilfynydd wedi'i leoli i ffwrdd o'r adran hon lle mae'r terfyn cyflymder o 50mya wedi'i gyflwyno a hyd yma, nid yw'r Cyngor wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag unrhyw gynigion a allai fod ganddynt (ac y byddent yn gyfrifol am eu harwain) i helpu i wella ansawdd aer a gallant naill ai effeithio ar yr adran gyfagos o'r A470 neu ofyn am newidiadau arni.

Gall llygredd aer effeithio ar iechyd y cyhoedd, yr amgylchedd naturiol a'r economi, a gall amlygiad i lefelau uchel o nitrogen deuocsid amharu ar lwybrau anadlu'r ysgyfaint, gan gynyddu symptomau'r rhai sy'n dioddef o glefydau'r ysgyfaint. Mae amlygiad tymor byr i nitrogen deuocsid hefyd yn gysylltiedig â mwy o afiachusrwydd cardiofasgwlaidd ac anadlol.

Mae'r amgylchedd wrth wraidd ein penderfyniadau ac rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â ffynonellau llygredd aer a sicrhau hawl pobl i aer glân yng Nghymru. Gwellu ansawdd aer yw un o'r heriau mwyaf cymhleth sy'n ein hwynebu, sydd angen gweithredu ar y cyd ar draws sectorau a chymunedau i sicrhau aer glân. Mae'n bwysig ein bod yn gwneud hyn yn iawn.

Yr hydref hwn byddwn yn cyhoeddi, ar gyfer ymgynghori, ein Cynllun Diweddarau ar y camau yr ydym yn eu cymryd i fynd i'r afael â gormodedd o werthoedd terfyn nitrogen deuocsid. Bydd hyn yn manylu ar y cynnydd a wnaed hyd yma a'r camau nesaf i sicrhau ein bod yn cyflawni gwelliannau brys o ran ansawdd aer er budd iechyd y cyhoedd.

Rhwng 13 Ionawr a 7 Ebrill 2021, gwnaethom ymgynghori ar Bapur Gwyn ar Ddeddf Aer Glân i Gymru ac rydym wrthi'n adolygu'r ymatebion. Mae gennym nifer o Fesurau sy'n cystadlu am le yn y Rhaglen Ddeddfwriaethol a rhaid inni flaenoriaethu. Rydym wedi cyhoeddi ein hamserlen ar gyfer blwyddyn un a byddwn yn cyhoeddi union safle'r Bil Aer Glân o fewn y Rhaglen Ddeddfwriaethol maes o law.

Rydym yn adolygu opsiynau i ymestyn darpariaeth ein rhwydweithiau monitro ansawdd aer i gefnogi camau gweithredu sy'n anelu at leihau llygredd aer. Bydd gwell darpariaeth fonitro yn helpu i asesu risgiau amlygiad a chynnydd tuag at dargedau, lleihau'r bylchau yn y ddarpariaeth a chefnogi gwaith cyfathrebu ynghylch llygredd aer.

Yng nghyd-destun ein gwaith ehangach yn y maes hwn, rydym hefyd wedi cyhoeddi ein Cynllun Aer Glân i Gymru a'n Strategaeth Drafnidiaeth gynaliadwy a hygyrch newydd, sef Llwybr Newydd. Mae'r gwaith hwn yn parhau i ategu ein huchelgais i wella ansawdd aer yng Nghymru ac ymgorffori cynaliadwyedd yn ein seilwaith teithio.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Lee', is centered on a light gray rectangular background.

Lee Waters AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change

Lee Waters AS/MS
Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref WQ83368

Heledd Fychan MS

heledd.fychan@senedd.wales

29 November 2021

Dear Heledd

Thank you for your recent Written Question: How long have pollution levels associated with the A470 in the Pontypridd area been too high, and how dangerous is this?

Locations on the motorway and trunk road network where air quality levels may exceed limits set out in the Air Quality Standards (Wales) Regulations 2010 are principally identified via the national DEFRA Pollution Climate Mapping (PCM) model, which is updated on an annual basis. The model is designed to fulfil part of the UK's requirements to report on the concentrations of particular pollutants in the atmosphere and is the agreed national source for identifying areas or routes that exceed the limit levels set for these pollutants.

The section of the A470 between the Upper Boat Interchange and Bridge Street Interchange in Pontypridd was one of 5 locations identified via the 2017 PCM Model as having annual average levels of NO₂ higher than the limit. The commissioning of the WeITAG investigations was undertaken as soon as practically possible to help ensure that steps were taken to achieve compliance in the shortest time possible. Upon completion of the Stage 1 and 2 investigations, it was established that a reduction in speed limit to 50mph had the potential to yield immediate improvements in air quality and therefore, this limit was implemented at all 5 locations on a trial basis in June 2018. Once the final WeITAG Stage 3 investigations were completed, it was identified that a 50mph speed limit was the only measure that would achieve compliance with the limit values on this section of A470 as soon as possible.

Officials are aware that there are a number of Air Quality Management Areas (AQMAs) adjacent to the A470 near Pontypridd including at Cilfynydd, Treforest and Pentrebach Road (area known locally as Nightingale's Bush). Responsibility for these AQMAs rests with Rhondda Cynon Taf County Borough Council, as one of the statutory functions contained within the Environment Act 1995 is that local authorities must review and assess the air quality within their area. Should the results of any subsequent review or monitoring identify any air quality issues, the Local Authority must declare it as an Air Quality Management

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Lee.Waters@llyw.cymru
Correspondence.Lee.Waters@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Area (AQMA) and prepare a plan to improve the air quality, i.e. a Local Air Quality Action Plan.

As the AQMA's at Treforest and Nightingale's Bush are located alongside the section of A470 where the Welsh Government have taken steps to reduce NO2 levels, it is possible that air quality may also improve at these locations. However, the AQMA at Cilfynydd is located away from this section where the 50mph speed limit has been introduced and to date, the Welsh Government have not been contacted by the Council in respect of any proposals that they may have (and would be responsible for taking the lead on) to help improve air quality and may either affect or require changes to the adjacent section of A470.

Air pollution impacts on public health, the natural environment and the economy, and exposure to high levels of nitrogen dioxide can irritate the airways of the lungs, increasing symptoms of those suffering from lung diseases. Short-term exposure to nitrogen dioxide is also associated with increased cardiovascular and respiratory morbidity.

The environment is at the heart of our decision making and we are committed to tackling the sources of air pollution and ensuring people's right to clean air in Wales. Improving air quality is one of the most complex challenges we face, needing collaborative action across sectors and communities to achieve clean air. It is important we get this right.

This autumn we will publish, for consultation, our Update Plan on actions we are taking to address exceedances of nitrogen dioxide limit values. This will detail the progress made to date and next steps to ensure we achieve urgent air quality improvements for the benefit of public health.

Between 13 January and 7 April 2021, we consulted on a White Paper on a Clean Air Act for Wales and we are currently reviewing the responses. We have a number of Bills competing for a place in the Legislative Programme and we have to prioritise. We have announced our timetable for year one will announce the precise placing of the Clean Air Bill within the Legislative Programme in due course.

We are reviewing options to extend the provision of our air quality monitoring networks to support targeted action to reduce air pollution. Enhanced monitoring provision will help to assess exposure risks and progress towards targets, reduce gaps in coverage and support communications of air pollution.

In the context of our wider work in this area, we have also published our Clean Air Plan for Wales and our new sustainable and accessible Transport Strategy, Llwybr Newydd. This work continues to drive forward our ambition of improving the quality of air in Wales and embedding sustainability in our travel infrastructure.

Yours sincerely



Lee Waters AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd
Deputy Minister for Climate Change